# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Chwefror 14eg 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynedd Jones, Gwilym Davies, Jean Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Rhys Richards ac Euros Puw.

Croesawyd Nicola Meadley a Lisa Knipe o Brand Events i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad ar yr ŵyl awyr agored a fwriedir ei gynnal ar dir Gwernhefin ym mis Awst. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau a diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, ond gan mai dim ond Geraint Jones oedd yn bresennol ac wedi mynychu'r cyfarfod ym mis Rhagfyr, cytunwyd i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

**Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**i) Doedd dim materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

**ii) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.
i) Ad-daliad costau cynnal llwybrau - trafodwyd y toriadau i'r cyllid blynyddol ar effaith y byddai hyn yn ei gael ar y gwasanaeth. Cytunwyd i ofyn i'r Bartneriaeth am amcangyfri' o'r gost o dorri'r llwybrau unigol. Cytunwyd i arwyddo cytundeb Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau'r cyllid gostyngedig a oedd yn cael ei gael ar gyfer 2017-18.

b) Cyngor Gwynedd
i) Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd – Copi o'i Adroddiad Blynyddol 2015-16.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Chwefror.

c) Un Llais Cymru.
i) Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cwrs cyfrifon a mynychodd ym Mhenrhyndeudraeth ar y 2/2/17. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu i'r clerc fynychu'r cwrs (derbyniwyd bwrsari o 50% o gost y cwrs gan Gymdeithas y Clercod) ac y byddai Cyngor Cymuned Llandderfel yn talu ei chostau teithio.
ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 23/02/17.

**iii) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Cafwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-
NP5/72/237B – Cais ol-weithredol ar gyfer garej a storfa gardd. 8 Tai Rhos, Parc, Y Bala.
NP5/72/201A - Codi mast ffon symudol. Tir yn Fferm Pen y Bryn, Arenig.

**iv) Materion Ariannol.**
a) Monitro derbyniadau a thaliadau - Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Cyllideb a Praesept 2017-18 - Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc a chytunwyd i godi cyflog y clerc i £1,065 (gadawodd y clerc y cyfarfod yn ystod y drafodaeth), ychwanegu £50 ar gyfer hyfforddiant a chadw £220 ychwanegol yn y gronfa arian wrth gefn. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i godi'r Praesept ar gyfer 2017-18 i £4,000.

c) Cynllun Pensiwn - Eglurodd y clerc y camau priodol a oedd angen eu dilyn i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth newydd. Cytunwyd i anfon llythyr yn egluro opsiynau priodol i'r clerc.
ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd – Rhag 2016)
ii) Aelodaeth Un Llais Cymru
iii) Cwrs hyfforddiant Un Llais Cymru
iv) BDO - archwilwyr allanol. Gan fod y swm a godwyd yn uwch na'r disgwyl cytunwyd i anfon yn nol am eglurhad. Cytunwyd i beidio talu'r anfoneb cyn cael yr eglurhad.
d) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Cantref, Eisteddfod Talybont ag Aren Cymru. Cytunwyd i'w trafod

# Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 14eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.